

TRAFNIDIAETH CYMRU - DYLUNIO GWASANAETH RHEILFFYRDD CYMRU A'R GORORAU, GAN GYNNWYS Y METRO

Dyddiad cyhoeddi: 28 Chwefror 2017

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Mai 2017

TROSOLWG

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth i roi gwybod i bobl am y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheilffyrdd ac i greu cyfle i glywed barn am gyfeiriad lefel uchel Gwasanaeth Rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau, gan gynnwys darparu Metro De Cymru.

SUT I YMATEB

Bydd cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar 28 Chwefror ac yn dod i ben ar 23 Mai 2017. Gofynnir i chi sicrhau bod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau gofynnol. Bydd yr ymatebion yn cyfrannu at y broses gaffael wrth iddynt ddod i law, ac felly nid oes angen aros tan y dyddiad cau cyn cyflwyno ymateb.

Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/trafnidiaeth-cymru-cynllun-ar-gyfer-gwasanaeth-rheilffordd-cymru-ar-gororau-gan>.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy lenwi'r ffurflen ar-lein yn

<http://www.smartsurvey.co.uk/s/TfWpublicconsultation/>.

Fel arall, gallwch ymateb drwy ateb y cwestiynau yn y gofod a ddarperir a dychwelyd y ddogfen naill ai drwy'r post neu drwy e-bost. Nodir y manylion cyswllt yn ddiweddarach yn y ddogfen.

Er mwyn sicrhau bod ystod eang o farn yn cael ei chlywed, dim ond un ffordd o geisio barn pobl yw'r ddogfen hon. Bwriedir cynnal cyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid yn ystod y gwanwyn.

Dyddiadau a lleoliadau

20 Mawrth – Canolfan Gateway, Amwythig

21 Mawrth – Venue Cymru, Llandudno

28 Mawrth – Coleg y Cymoedd, Nantgarw

29 Mawrth – Gwesty Ivy Bush, Caerfyrddin

3 Ebrill – Gwesty'r Marine, Aberystwyth

Rydym wedi datblygu fersiwn pobl ifanc a fersiwn Hawdd ei Deall o'r ddogfen hon fel rhan o becyn adnoddau y gellir ei lawrlwytho a'i ddefnyddio i hwyluso trafodaethau.

Mae nifer o grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein wedi'u cynllunio hefyd. Ewch i'n gwefan www.llyw.cymru/trafnidiaethcymru i gael rhagor o wybodaeth a manylion ynglŷn â sut i fynychu'r digwyddiadau.

Byddwn yn ystyried eich ymatebion, ochr yn ochr â pholisi Llywodraeth Cymru a gofynion yr Adran Drafnidiaeth yng nghyswllt gwasanaethau a gorsafoedd yn Lloegr a'r rhai sy'n croesi'r ffin.

Wrth ymateb, gofynnir ichi ddatgan a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli safbwyntiau pobl eraill, er enghraifft sefydliad.

Os ydych yn ymateb fel unigolyn, er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn y ffordd orau, byddai o gymorth inni pe gallech lenwi'r adran 'amdanoch chi' yn y ddogfen ymgynghori.

Os ydych yn ymateb ar ran eraill, er enghraifft sefydliad, gofynnir ichi nodi'n glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, a sut y cafodd barn yr aelodau ei chasglu, pan fo'n berthnasol.

GWYBODAETH BELLACH A DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

Mae fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn pobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar ein gwefan: www.llyw.cymru/trafnidiaethcymru. Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ar ffurf CD sain ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

MANYLION CYSWLLT

Cyfeiriad Post: Trafnidiaeth Cymru
 5ed Llawr
 Southgate House
 Wood Street
 Caerdydd
 CF10 1EW

E-bost: contact@transportfor.wales

Rhif ffôn: 029 2167 3434

DIOGELU DATA

Sut y bydd y farn a'r wybodaeth yr ydych yn eu rhoi inni yn cael eu defnyddio

Bydd unrhyw ymateb yr ydych yn ei anfon atom yn cael ei weld yn ei gyfanrwydd gan staff Trafnidiaeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Gall staff Llywodraeth Cymru a staff Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU weld eich ymateb hefyd.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel rheol, bydd enw'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi gyda'r ymateb.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi.

Mae'r gyfraith yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn penderfynu.

RHAGAIR

Rwy'n falch bod Trafnidiaeth Cymru yn cynnal yr ail ymgynghoriad hwn ynghylch Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Hoffwn ddiolch ichi am eich adborth rhagorol drwy'r ymgynghoriad cyntaf ac am gyfranogiad brwdfrydig cynifer ohonoch hyd yma.

Yn ein hymgyngoriad cyntaf, canolbwyntiwyd ar ganfod y safonau ansawdd y mae teithwyr am eu gweld yn rhan o'r gwasanaeth rheilffyrdd nesaf. Cyflwynwyd safbwyntiau am amryw o feysydd, gan gynnwys amseroedd teithio, niferoedd uwch o deithwyr, costau llai, capasiti, prydlondeb, dibynadwyedd, ac ansawdd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn anelu at ystyried rhai o'r meysydd hynny'n fwy manwl er mwyn cyfrannu at y broses o gaffael Gwasanaeth Rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau, gan gynnwys y Metro.

Drwy ein rhaglen lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen 2016-2021'¹, rydym wedi nodi'n glir sut y byddwn yn cyflawni mwy o swyddi, a swyddi gwell, drwy economi gryfach a thecach. Hoffem greu Cymru unedig a chysylltiedig. Fel rhan o system trafndiaeth gyhoeddus integredig, mae gwasanaethau rheilffyrdd effeithlon o ansawdd uchel, sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb, yn bwysig er mwyn trawsnewid cymunedau er gwell.

Hoffem weld system drafnidiaeth sy'n gwella cysylltedd ledled Cymru ac sy'n annog teithio llesol. Hoffem hefyd weld system drafnidiaeth sy'n lleihau'r effaith y mae trafndiaeth yn ei chael ar yr amgylchedd.

Caffael y gwasanaeth rheilffyrdd newydd i Gymru a'r Gororau yw'r broses gaffael fawr gyntaf yn y sector cyhoeddus ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddod i rym². Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol inni weithio ar y cyd i sicrhau dyfodol cynaliadwy ac mae eich safbwyntiau'n bwysig er mwyn cyflawni hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drawsnewid y gwasanaeth cyfan. Cynhaliwyd uwchgynhadledd Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2016, gyda

¹ <http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

rhanddeiliaid allweddol o'r ddwy ochr i'r ffin, er mwyn trafod y cyfleoedd economaidd ar draws y rhanbarth. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar nifer o astudiaethau er mwyn helpu i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer Metro Gogledd-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn adeiladu ar ddyheadau Growth Track 360 ac yn adlewyrchu pwysigrwydd cysylltedd da ar draws ffiniau os ydym am sicrhau'r cyfleoedd economaidd mwyaf.

Ers 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliad yn y diwydiant bysiau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector. Fel rhan o'r ddeialog barhaus hon, ym mis Ionawr cynhaliwyd Uwchgynhadledd Bysiau Cymru 2017 yn Wrecsam. Ochr yn ochr â'r camau a ddeilliodd o'r Uwchgynhadledd a chynllun 5 pwynt ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, byddwn yn gofyn barn ar set o gynigion polisi cyn bo hir wedi'u hanelu at gyflawni hyfywedd hirdymor y sector bysiau ledled Cymru.

Rydym yn cymryd y camau cywir tuag at gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd yn ardal Cymru a'r Gororau. Rydym yn awyddus i glywed eich barn chi, a fydd yn ein helpu i wneud y penderfyniadau cywir yn awr er mwyn rhoi gwasanaeth rheilffyrdd inni y gall pob un ohonom ymfalchïo ynddo.

Ken Skates

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Cynnwys

1. CYFLWYNIAD	11
Datganoli	11
Ynglŷn â Trafnidiaeth Cymru	12
Y gwasanaeth presennol	12
Yr ymgynghoriad blaenorol	12
Y broses gaffael	13
Y broses ymgynghori	13
Sut i ymateb	14
2. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL	15
Cynaliadwyedd	15
Cydraddoldeb ac amrywiaeth	16
Y Gymraeg	16
3. ADRAN A – CYMRU A'R GORORAU	17
Trenau i ddiwallu anghenion teithwyr	17
Gorsafoedd i deithwyr a'r gymuned	19
Gwasanaethau gwell	21
Gwasanaethau trawsffiniol: Gwasanaethau a gorsafoedd yn Lloegr	22
Gwasanaethau Trenau	22
Gorsafoedd	23
Gorsafoedd Amwythig, Caer a Henffordd	23
Gorsafoedd eraill yn Lloegr	24
Prisiau a thocynnau i hwyluso teithio ar y trên	24
Darparu gwybodaeth well	25
4. ADRAN B – METRO DE CYMRU	26
Trenau i ddiwallu anghenion teithwyr	27
Gorsafoedd i deithwyr a'r gymuned	29
Gwasanaethau gwell	30
Trafnidiaeth gyhoeddus well i bawb	31
Darparu gwybodaeth well	32
Rheoli gwaith adeiladu	33
5. Amdanoch chi	34
Atodiad 1 Gwasanaethau dyddiol drwy orsafoedd yn Lloegr	36

1. CYFLWYNIAD

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog mwy o bobl i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae sicrhau bod mwy o bobl yn defnyddio ein rheilffyrdd, drwy iddynt fod yn ffordd effeithiol o deithio, yn ffactor pwysig o ran gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Cafodd y fasnachfaint bresennol ei gosod yn 2003 o dan drefniadau Llywodraeth y DU, a chafodd mwyafrif y cyfrifoldebau rheoli o ddydd i ddydd eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru yn 2006 nes y bydd y fasnachfaint yn dod i ben ym mis Hydref 2018. Yn 2014, cyhoeddwyd y byddai'r cyfrifoldeb am fanyleb gwasanaeth rheilffyrdd nesaf Cymru a'i gaffael yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, sef proses a ddylai gael ei chwblhau yn 2017. Fodd bynnag, nid yw meysydd eraill, fel cyllid ar gyfer seilwaith rheilffyrdd a phwerau i gyfarwyddo Network Rail, wedi'u datganoli. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i gydweithredu â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth ynghylch sicrhau bod y contract nesaf yn rhoi'r cwsmer wrth galon y gwasanaeth.

Datganoli

Mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o reoli'r gwasanaeth presennol ac mae wedi buddsoddi'n fawr yn y seilwaith a'r gwasanaethau er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU o hyd yw seilwaith y rheilffyrdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau y bydd manteision y Gwasanaeth Rheilffyrdd newydd i'w gweld yn ardal y Gororau i'r un graddau ag yng Nghymru. Mae'n gweithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau y gellir cynrychioli buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid y Gwasanaeth Rheilffyrdd yn Lloegr yn effeithiol wrth fwrw ymlaen.

Cytunwyd â'r Adran Drafnidiaeth, ar y lleiaf, y bydd gwasanaethau yn y dyfodol yn cwmpasu'r un ardal ddaearyddol ag a wasanaethir gan fasnachfaint bresennol Cymru a'r Gororau. Cytunwyd hefyd y gall, yn y dyfodol, weithredu gwasanaethau o gyrchfannau yng Nghymru i Fryste a Lerpwl os yw'r capasiti ar gael yn y rhwydwaith.

Ynglŷn â Trafnidiaeth Cymru

Cwmni dielw sydd yng ngofal cwmni arall yw Trafnidiaeth Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i roi cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phrosiectau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Rydym wrthi'n ymgymryd â'r broses gaffael ar gyfer Gwasanaeth Rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau, gan gynnwys Metro De Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafndiaeth i sicrhau bod y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru ac ar hyd y ffin yn darparu system well a mwy cynaliadwy i deithwyr, sy'n cefnogi'r weledigaeth o Gymru fwy ffyniannus.

Cydnabyddir y bydd angen i'r gweithredwr nesaf gyflawni nifer o welliannau a fydd yn cael eu gweithredu'n raddol dros gyfnod y contract nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cynigydd llwyddiannus fuddsoddi'n barhaus drwy gydol y 15 mlynedd, sef y cyfnod y bwriedir i Wasanaeth Rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau bara.

Y gwasanaeth presennol

Mae Trenau Arriva Cymru, sef y gweithredwr masnachfaint presennol, yn gweithredu 956 o wasanaethau bob dydd, gan gludo tua 30.5 miliwn o deithwyr bob blwyddyn³. Mae Trenau Arriva Cymru yn darparu cysylltedd pwysig nid yn unig o fewn Cymru ond rhwng Cymru a chanolfannau trefol yn Lloegr, gan gynnwys Manceinion, Birmingham, Caer, Henffordd, Amwythig, Caerloyw a Cheltenham⁴.

Yr ymgynghoriad blaenorol

Cafodd Llywodraeth Cymru tua 190 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf, a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016. Mae cyfanswm ac ystod y sylwadau a ddaeth i law wedi cyfrannu at ein dull o feddwl wrth ddatblygu'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd a gweithrediadau gorsafoedd yng Ngwasanaeth Rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau. Mae crynodeb o'r ymatebion ar

³ <https://www.arrivatrainswales.co.uk/EinCwmni/?langtype=1106>

⁴ <https://www.arrivatrainswales.co.uk/Homepage.aspx?langtype=1106>

gael ar wefan Llywodraeth Cymru⁵. Cynhaliodd Trafnidiaeth Cymru ddigwyddiad ymgysylltu ym mis Gorffennaf 2016 i gyflwyno'r canlyniad a'i drafod â rhanddeiliaid, a'n cynorthwyodd i saernïo ein syniadau ymhellach.

Ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu, datblygodd Llywodraeth Cymru ei *Blaenoriaethau Polisi ar gyfer Proses Gaffael Gweithredwr a Phartner Datblygu Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a'r Metro*⁶. Darparwyd Blaenoriaethau Polisi Llywodraeth Cymru i'r darpar gynigwyr ar ddechrau'r broses gaffael, gyda'r disgwyliad y bydd cynigion yn cael eu cysoni â'r blaenoriaethau hyn, gan ddibynnu ar y ddeialog gystadleuol, a eglurir isod.

Y broses gaffael

Gan ddefnyddio'r Blaenoriaethau Polisi a bennwyd yn sgil yr ymgynghoriad diwethaf, lanswyd ymarfer caffael ym mis Gorffennaf 2016. Mae pedwar cynigydd wedi cymhwyso i fod yn rhan o'r broses gaffael:

- Abellio Rail Cymru,
- Arriva Rail Wales/Rheilffyrdd Arriva Cymru Limited,
- KeolisAmey, a
- MTR Corporation (Cymru) Ltd

Maent wedi rhoi eu syniadau cychwynnol inni ar sail y Blaenoriaethau Polisi ac maent wrthi'n datblygu eu datrysiadau, drwy broses a elwir yn ddeialog gystadleuol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio ein trafodaethau â nhw. Disgwylir i'r contract gael ei ddyfarnu ym mis Ionawr 2018. Mae rhagor o fanylion am y broses gaffael ar gael ar ein gwefan.

Y broses ymgynghori

Mae cwmpas yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys Gwasanaeth Rheilffyrdd y dyfodol ar gyfer Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru. Mae'r ddogfen hon yn eich gwahodd i nodi pa mor bwysig yw agweddau penodol i chi; bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa fath o wasanaeth rheilffyrdd y dymunir ei gael. Bydd gwaith ymgysylltu pellach a

⁵ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/gosod-y-trywydd-ar-gyfer-rheilffordd-cymru-ar-gororau>

⁶ <http://gov.wales/topics/transport/transport-for-wales/procurement/?skip=1&lang=cy>

pharhaus yn mynd rhagddo wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu. Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n ddwy adran.

Adran A – Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau


Adran B – Metro De Cymru

Mae'r map isod yn dangos pa wasanaethau yr ydym yn cyfeirio atynt yn adrannau dilynol yr ymgynghoriad hwn; mae'n cynnwys:

- Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau
- Metro De Cymru
- Llinellau Craidd y Cymoedd

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â Metro De Cymru ar gael ar y wefan:

www.llyw.cymru/metro.



Sut i ymateb

Bydd cyfnod yr ymgynghoriad yn cychwyn ar 28 Chwefror 2017 ac yn dod i ben ar 23 Mai 2017. Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau. Os

hoffech ragor o gopiâu o'r ddogfen ymgynghori hon, mae ar gael ar y wefan <https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/trafnidiaeth-cymru-dylunio-gwasanaeth-rheilffyrdd-cymru-ar-gororau-gan-gynnwys-y-metro>.

Gofynnir ichi ymateb drwy lenwi'r arolwg ar-lein yn <http://www.smartsurvey.co.uk/s/TfWpublicconsultation/>.

2. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cytuno'n llwyr â'r pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o ran gweithio, a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁷. Mae canlyniadau'r prosiect wedi'u bwriadu i gael effaith gadarnhaol ar Gymru o ran ei amcanion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae mesurau i gynyddu nawdd i gludiant cyhoeddus yn cyfrannu at ddatblygu cymdeithas carbon isel arloesol a chynhyrchiol sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur.

Mae gwasanaethau rheilffyrdd yn rhan o ddull cydgysylltiedig o ddarparu trafndiaeth gyhoeddus, yn arbennig wrth ystyried mynediad i wasanaethau gan gynnwys dod o hyd i wasanaethau gofal iechyd neu addysg sy'n agos at gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus.

Maer' gwasanaeth rheilffyrdd hefyd yn rhan annatod o'r ymgyrch i annog teithio byw. Drwy gyfuno cerdded a beicio gyda thrafnidiaeth integredig, gallwn helpu i wireddu'r manteision iechyd sy'n gysylltiedig â theithio byw.

Cynaliadwyedd

Rydym wedi sefydlu Panel Cynghori ar Gaffael Cynaliadwy a Moesegol⁸ i oruchwylio elfennau'r broses o Gaffael Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a'r Metro sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a moeseg. Mae'r Panel hwn yn cynnwys adrannau Cymorth Busnes a Sgiliau Llywodraeth Cymru ynghyd â chyrrff o'r diwydiant ac sy'n ymwneud â'r arferion gorau, a bydd yn darparu cyngor, canllawiau a chymorth ynghylch materion fel datblygu sgiliau a sicrhau manteision uniongyrchol drwy gyfleoedd ar gyfer busnesau llai, mwy lleol.

⁷ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

⁸ <http://gov.wales/topics/transport/transport-for-wales/news-and-events/161128-new-sustainable-and-ethical-procurement-panel-established/?skip=1&lang=cy>

Rydym hefyd yn ystyried yr hyn a ganlyn wrth ymdrin â'r broses o gaffael a datblygu Gwasanaeth Rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau:

- Gofynion Deddf yr Amgylchedd 2016
- Materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, rhywogaethau goresgynnol a chydnerthedd o ran y newid yn yr hinsawdd.
- Amodau cyllido Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), sy'n cynnwys targedau lleihau carbon
- Argymhellion papur Twf Gwyrdd Cymru⁹ ynglŷn ag ysgogi buddsoddiadau ac arloesedd, a fydd yn cynnal twf cynaliadwy ac yn creu cyfleoedd economaidd newydd.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn yr ymgynghoriad diwethaf a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen gwell hygyrchedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn dileu'r rhwystrau i deithio ac yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol. Mae sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn grymuso grwpiau sy'n agored i niwed i gymryd rhan yn y gymdeithas yn un o gonglfeini'r rhaglen lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen'¹⁰.

Bydd yn hanfodol i'r gweithredwr nesaf gyflawni'r rhwymedigaethau presennol mewn perthynas â hygyrchedd rheilffyrdd. Mae grŵp hygyrchedd wedi'i gynnull i gynghori ar y Gwasanaeth Rheilffyrdd nesaf a bydd pob un o'r pedwar cynigydd yn trafod â'r grŵp yn uniongyrchol ynglŷn â sut y gall gyflawni'r rhwymedigaethau hyn neu ragori arnynt.

Y Gymraeg

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth o ddiwylliant Cymreig ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu yng Nghymru, ac o alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd. Fel rhan o'r weledigaeth hon, sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg yn 2011 yn gorff annibynnol i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'n cael ei

⁹ <http://gov.wales/docs/det/publications/140623-green-growth-cy.pdf>

¹⁰ <http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau.

Ers yr ymgynghoriad diwethaf, mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi adroddiad yn dilyn ei hymchwiliad safonau i'r Gymraeg mewn Gwasanaethau Rheilffyrdd¹¹. Erbyn hyn, mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried ac er mwyn iddi lunio'r rheoliadau y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pleidleisio arnynt.

3. ADRAN A – CYMRU A'R GORORAU

Mae'r adran hon yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r Gwasanaeth Rheilffyrdd ar draws ardal Cymru a'r Gororau, **heb gynnwys** ardal Metro De Cymru a nodir yn y map uchod. Byddwn yn gofyn ichi am eich barn ynglŷn ag ardal Metro De Cymru yn yr adran nesaf.

Trenau i ddiwallu anghenion teithwyr

Yn yr ymgynghoriad diwethaf, roedd ansawdd y trenau a'r gwasanaethau ar drenau yn feysydd y nododd teithwyr yn glir fod angen eu gwella. O ganlyniad, mae'r Blaenoriaethau Polisi yn datgan y dylai trenau'r dyfodol ddarparu mwy o gapasiti a gwella'r ansawdd er mwyn cyflawni disgwyliadau cynyddol teithwyr.

Dros gyfnod y contract, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Gweithredwr nesaf redeg trenau o ansawdd uchel sy'n darparu toiledau hygrych, teledu cylch cyfyng er diogelwch personol, seddau blaenoriaeth, cyfleusterau gwybodaeth i deithwyr, a thechnoleg rhyngwyd symudol.

Wrth ddylunio'r trenau i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael yn effeithiol, hoffem ddeall yr hyn sy'n bwysig i chi.

Nodwch sgôr o 1 i 6 ar gyfer pob eitem (defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig, hynny yw, rhowch sgôr o 1 i'r eitem fwyaf dymunol, a 6 i'r un leiaf dymunol, a rhowch sgôr rhwng y rhifau hynny i'r eitemau eraill)

Lle i roi bagiau	
Lle ar gyfer byrddau ar wahân	

11

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/manylioncyhoeddiad.aspx?publicationid=516857a7-e9df-4abf-a2ec-b0e747f404bc&category=deddfwriaeth%20ac%20is-ddeddfwriaeth>

Gallu gweld o ffenestri (aliniad seddau)	
Mwy o le i'ch coesau	
Lle i gadw beiciau	
Cyfleusterau penodol ar gyfer Dosbarth Busnes	

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl i deithio'n llesol, a hwyluso hynny. Fodd bynnag, mae angen ystyried sut i gael cydbwysedd rhwng sicrhau bod cymaint o le ag y bo modd i deithwyr a chreu lle i feicwyr gyda'u beiciau, yn arbennig yn y cyfnodau prysuraf.

Nodwch eich syniadau ynglŷn â sut y gallwn sicrhau cydbwysedd priodol.

Rydym yn awyddus i ddeall y materion a'r meysydd y mae pobl yn pryderu amdanynt mewn perthynas â sicrwydd a diogelwch.

Ar hyn o bryd, mae gan bob Gwasanaeth Cymru a'r Gororau ail aelod o staff i helpu gyda diogelwch, sicrwydd, darparu gwybodaeth, a gwerthu tocynnau.

Pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn, yn eich barn chi? Ticiwch un:

Hanfodol	
Eithaf pwysig	
Nid yw'n bwysig	
Dim barn gref	

Os oes ail aelod o staff ar y trê, ar beth rydych chi'n credu y dylai'r person hwnnw ganolbwyntio?

Nodwch eich syniadau ynglŷn â'r hyn y dylai ail aelod o staff ganolbwyntio arno.

Gorsafoedd i deithwyr a'r gymuned

Yn yr ymgynghoriad blaenorol, cynigiodd ymatebwyr awgrymiadau ynglŷn â gwelliannau i orsafoedd ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn ei gyfanrwydd. Mae llawer o'r cyfleusterau hyn i'w cael mewn nifer o orsafoedd, ond rydym yn awyddus i ddeall sut y byddech yn blaenoriaethu'r broses o gyflwyno unrhyw gyfleusterau ychwanegol.

Nodwch y cyfleusterau yr ydych yn eu hystyried yn hanfodol â **H** a'r cyfleusterau yr ydych yn eu hystyried yn ddymunol â **D**.

Eitem	Gorsafoedd mawr	Gorsafoedd bach
Staff gorsafoedd		
Mannau cymorth gan gynnwys cymorth mewn argyfwng		
Teledu cylch cyfyng er diogelwch personol		
Mannau aros wedi'u cysgodi		
Cyfleusterau prynu tocynnau		
Toiledau		
Parcio		
Mannau manwerthu, gan gynnwys bwyd		
Parcio i feiciau		
Safleoedd bysiau		
Mannau clicio a		

chasglu (i barseli a danfoniadau)		
Cysylltedd data symudol		
Mannau gwybodaeth i gwsmeriaid		
Pwyntiau gwefru symudol		
Pwyntiau gwefru ceir trydanol		

Pa gyfleusterau eraill y byddech yn disgwyl eu gweld yn eich gorsaf?

Mae enghreifftiau da o gymunedau lleol yn cymryd rhan yn y broses o wella amgylchedd a chyfleusterau gorsaf.

Ym mha ffordd y gallai eich cymuned chi gymryd rhan yn y broses o wella eich gorsaf leol?

Ar hyn o bryd, mae rhai meysydd parcio mewn gorsafoedd yn rhai di-dâl a heb eu rheoli, ac nid ydynt ar gael bob amser i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth trenau.

Er mwyn sicrhau bod cynifer o ddefnyddwyr trenau ag y bo modd yn defnyddio'r meysydd parcio hyn, a fydddech yn barod i dalu am barcio pe bai hyn yn ariannu gwelliannau i gapasiti, ansawdd a diogelwch meysydd parcio?

Byddwn / Na fyddwn

Gwasanaethau gwell

O'u hystyried yn llinell sylfaen, bydd amlder a chapasiti gwasanaethau presennol yn cael eu cynnal oni bai bod dadl glir dros newid. Gofynnwyd i'r cynigwyr ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio capasiti'r rhwydwaith yn fwy effeithlon. Hoffem ddeall pa welliannau i wasanaethau a fyddai fwyaf gwerthfawr ichi ac a fyddai'n gwneud ichi ddefnyddio'r gwasanaethau i raddau mwy.

Nodwch sgôr o 1 i 7 ar gyfer pob eitem (defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig, hynny yw, rhowch sgôr o 1 i'r eitem fwyaf dymunol, a 7 i'r un leiaf dymunol, a rhowch sgôr rhwng y rhifau hynny i'r eitemau eraill)

Gwasanaethau amlach yn ystod oriau brig	
Gwasanaethau amlach yn ystod oriau eraill	
Trên olaf hwyrach	
Trên cyntaf cynharach	
Mwy o wasanaethau ar ddydd Sul	
Gwasanaethau ar Ŵyl San Steffan (26 Rhagfyr)	
Gwasanaethau Dydd Calan	

Nodwch sgôr o 1 i 5 ar gyfer pob eitem (defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig, hynny yw, rhowch sgôr o 1 i'r eitem fwyaf dymunol, a 5 i'r un leiaf dymunol, a rhowch sgôr rhwng y rhifau hynny i'r eitemau eraill)

Amseroedd teithio cyflymach	
Gwasanaethau mwy dibynadwy	
Gwasanaethau mwy uniongyrchol (llai o newidiadau)	

Cydgysylltu â gwasanaethau trenau a bysiau eraill	
Gwasanaethau cyflym (aros mewn llai o orsafoedd)	

Beth yw'r anawsterau yr ydych yn eu hwynebu o ran teithio ar fwy nag un math o wasanaeth e.e. newid trenau, newid o fws i drên?

Nodwch eich syniadau ynglŷn â gwasanaethau newydd neu i fynd i'r afael â phroblemau gyda'r amserlen bresennol sy'n creu anawsterau.

Gwasanaethau trawsffiniol: Gwasanaethau a gorsafoedd yn Lloegr

Mae masnachfaint bresennol Cymru a'r Gororau yn gweithredu llawer o wasanaethau trenau ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr a nifer fach o wasanaethau sydd yn Lloegr yn gyfan gwbl (e.e. gwasanaeth lleol rhwng Crewe a Chaer). Bu hyn yn wir ers creu'r fasnachfaint yn 2003 ac mae'n cydnabod daearyddiaeth reilffyrdd Cymru, sef bod yr unig reilffordd rhwng gogledd a de Cymru yn gweithredu drwy Loegr.

Gwasanaethau Trenau

Mae cytundeb o ran egwyddor na fydd dim gwasanaethau trenau'n cael eu dileu o'r contract nesaf ar wahân i'r gwasanaeth lleol rhwng Amwythig a Wolverhampton ar

ddydd Sul, a fydd yn trosglwyddo i weithredwr newydd trenau Gorllewin Canolbarth Lloegr ym mis Rhagfyr 2021, gan ei fod hefyd yn gweithredu'r gwasanaeth yn ystod gweddill yr wythnos.

Gorsafoedd

Trenau Arriva Cymru, sef y gweithredwr presennol, yw'r Perchennog Cyfleuster Gorsaf mewn nifer o orsafoedd yn Lloegr. Mae mwyafrif y rhain yn cael eu gwasanaethu gan fasnachfaint Cymru a'r Gororau yn unig ac maent hefyd yn orsafoedd heb staff. Trenau Arriva Cymru hefyd yw'r Perchennog Cyfleuster Gorsaf i'r gorsafoedd mwy yn Henffordd, Amwythig a Chaer, gan adlewyrchu ei rôl fel canolfannau allweddol i wasanaethau Cymru a'r Gororau a'r ffaith mai ef yw'r gweithredwr mwyaf o bell ffordd yn y gorsafoedd hyn. Mae'r tabl yn atodiad 1 yn darparu rhagor o fanylion am hyn. Mae profiad yn awgrymu bod y gweithredwr sy'n defnyddio gorsaf fwyaf yn fwy tebygol o gyflawni gwelliannau, gan mai ei gwsmeriaid a'i referniw ef sy'n elwa fwyaf.

Gorsafoedd Amwythig, Caer a Henffordd

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg y tair orsaf fwyaf yn Lloegr, sef Amwythig, Caer a Henffordd, o Wasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau i weithredwyr eraill. Ni fyddai angen i broses drosglwyddo fynd rhagddi o ddyddiad cychwyn y contract nesaf, ond gallai fynd rhagddi ar yr adeg fwyaf priodol yn ystod cyfnod y Gwasanaeth Rheilffyrdd nesaf. Dull posibl o weithredu fyddai i Henffordd ac Amwythig gael eu hymgorffori ym masnachfaint nesaf Gorllewin Canolbarth Lloegr, ac i Gaer gael ei throsglwyddo i fasnachfaint nesaf Arfordir Gorllewin Lloegr neu i fasnachfaint bresennol Gogledd Lloegr.

A ydych yn credu y dylid trosglwyddo'r rheolaeth dros rai o'r gorsafoedd hyn neu'r gorsafoedd i gyd?

Ydw/Nac ydw

Os ateboch 'Ydw', nodwch gyfiawnhad dros drosglwyddiad o'r fath, gan ganolbwyntio ar y manteision canfyddedig i deithwyr.

Gorsafoedd eraill yn Lloegr

Ym marn yr Adran Drafnidiaeth, byddai'n anodd cyfiawnhau trosglwyddo'r gwaith o redeg y gorsafoedd llai (yn arbennig y rhai a wasanaethir gan wasanaeth Cymru a'r Gororau yn unig), gan na fyddai'r perchennog cyfleuster gorsaf wedi'i gymell i reoli'r gorsafoedd pe bai dim ond ychydig o'i drenau'n galw yno, neu ddim ohonynt.

A ddylai'r gorsafoedd llai barhau yn rhan o fasnachfrait Cymru a'r Gororau?

Dylent / Na ddylent

Os ateboch 'Na ddylent', nodwch pa rai y gellid eu trosglwyddo, i ba fasnachfrait, a beth fyddai'r manteision canfyddedig.

Prisiau a thocynnau i hwyluso teithio ar y trê

Darparwyd amrywiaeth eang o farn ynglŷn â thocynnau yn yr ymgynghoriad diwethaf; fodd bynnag, roedd yn glir bod y mwyafrif am i docynnau papur barhau ochr yn ochr â dewisiadau eraill yn unol â gofynion cwsmeriaid yn y dyfodol. Hoffem wybod rhagor am yr opsiynau o ran tocynnau a fyddai'n annog pobl i ddefnyddio trenau.

Nodwch sgôr o 1 i 4 ar gyfer pob eitem (defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig, hynny yw, rhowch sgôr o 1 i'r dewis y credwch y byddai'n cael yr effaith fwyaf o ran annog pobl i ddefnyddio trenau, a 4 i'r un a fyddai'n cael yr effaith leiaf, a rhowch sgôr rhwng y rhifau hynny i'r agweddau eraill)

Cynigion arbennig i annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau oriau brig	
Gostyngiadau i'r gost o deithio i bobl sydd â phatrymau gwaith afreolaidd neu sy'n gweithio'n rhan-amser	
Tocynnau sydd wedi'u hintegreiddio mwy â dulliau trafndiaeth gyhoeddus eraill fel bysiau	
Strwythur tocynnau symlach	

A oes unrhyw gynigion eraill mewn perthynas â thocynnau y dylem ofyn i ddarparwr y gwasanaeth eu hystyried?

Darparu gwybodaeth well

Yn yr ymgynghoriad blaenorol, dywedoch wrthym ei bod yn bwysig gallu cael gafael ar wybodaeth glir, cywir a chyfoes.

Hoffem ddeall sut y byddai'n well gennych gael gwybodaeth i deithwyr. Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

	Gwybodaeth yn yr orsaf	Ap	E-bost a neges destun	Gwefan	Ar y trê	Cyfryngau cymdeithasol	Staff mewn gorsafoedd
Amhariadau sydd wedi'u							

cynllunio a newidiadau i wasanaethau							
Gwybodaeth deithio fyw gan gynnwys gwybodaeth am oedi							
Cynllunio teithiau gan gynnwys amseroedd y trenau							
Gwasanaethau newydd							
Newidiadau i docynnau							
Gwybodaeth deithio ar gyfer digwyddiadau mawr							
Gwybodaeth am berfformiad trenau a gwasanaethau							

4. ADRAN B – METRO DE CYMRU

System trafnidiaeth integredig newydd yw'r Metro, a fydd yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn teithio o amgylch Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd yn darparu gwasanaethau cyflymach, amlach a mwy cydgysylltiedig o amgylch De Ddwyrain Cymru. Mae gwasanaeth rheilffyrdd Metro De Cymru yn cael ei gaffael fel rhan o Wasanaeth Cymru a'r Gororau. Drwy'r Fargen Ddinesig, mae Dinas-Ranbarth Caerdydd wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r broses o ddatblygu Metro De Cymru, sy'n ychwanegu at y cyfle i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal hon. Mae'r cyfnod hwn o welliannau yn canolbwyntio'n bennaf ar Linellau

Craidd y Cymoedd, i'r gogledd o orsaf Heol y Frenhines yng Nghaerdydd; ac i Fae Caerdydd. Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd sy'n cael eu hystyried.

Cledrau'r Cymoedd Craidd
Metro De Cymru



Trenau i ddiwallu anghenion teithwyr

Yn ardal Metro De Cymru, gallai'r broses o foderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd olygu bod y math o drên a chyfleusterau a ddarperir yn eithaf gwahanol i'r hyn a welir ar weddill y rhwydwaith. Ein nod yw sicrhau mai'r trenau a ddefnyddir ar Linellau Craidd y Cymoedd yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer teithiau byrrach, a wneir er mwyn cymudo i'r gwaith. O ganlyniad, wrth ddylunio'r trenau newydd ar gyfer Metro De Cymru, gall blaenoriaethau teithwyr fod yn wahanol o gymharu â'r rhwydwaith ehangach.

Er mwyn creu'r capasiti mwyaf i deithwyr, bydd angen gwneud dewisiadau am y cyfleusterau sydd ar gael ar drenau, y mae pob un ohonynt yn effeithio ar nifer y teithwyr y mae trên yn gallu eu cludo. Bydd y cwestiynau a ganlyn yn ein helpu i ddeall eich gofynion.

Ticiwch un ar gyfer pob datganiad:

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn gwybod	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nid oes angen cael toiledau ar drenau					
Nid oes angen cael toiledau ar drenau, ond dim ond os darperir mwy mewn gorsafoedd					
Gellir cael llai o seddau os darperir mwy o leoedd diogel i sefyll					
Dylid parhau i gyfyngu ar feiciau (na ellir eu plygu) yn ystod oriau brig					
Dylai pob platfform mewn gorsaf fod â mynediad gwastad i drenau					

Rydym yn awyddus i ddeall y materion a'r meysydd y mae pobl yn pryderu amdanynt mewn perthynas â sicrwydd a diogelwch.

Ar hyn o bryd, mae gan bob Gwasanaeth Cymru a'r Gororau, yn cynnwys y rhai sydd yn ardal **Metro De Cymru**, ail aelod o staff i helpu gyda diogelwch, sicrwydd, darparu gwybodaeth, a gwerthu tocynnau.

Pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn, yn eich barn chi? Ticiwch un:

Hanfodol	
Eithaf pwysig	
Nid yw'n bwysig	
Dim barn gref	

Os oes ail aelod o staff ar y trê, ar beth rydych chi'n credu y dylai'r person hwnnw ganolbwyntio?

Nodwch eich syniadau ynglŷn â'r hyn y dylai ail aelod o staff ganolbwyntio arno.

Gorsafoedd i deithwyr a'r gymuned

Cynigiodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau ynglŷn â gwelliannau i orsafoedd ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn ei gyfanrwydd. Bwriedir i'r cwestiynau a ganlyn ein helpu i ddeall pa gyfleusterau sylfaenol (hanfodol) y dylid eu cael yn ardal **Metro De Cymru** yn benodol. Mae llawer o'r cyfleusterau hyn i'w cael mewn nifer o orsafoedd ond rydym yn awyddus i ddeall sut y byddech yn blaenoriaethu'r broses o gyflwyno unrhyw gyfleusterau ychwanegol.

Ticiwch i ddangos pa gyfleusterau yr ydych yn eu hystyried yn hanfodol a pha rai sy'n ddymunol.

Eitem	Hanfodol	Dymunol
Staff gorsafoedd		
Mannau cymorth		
Teledu cylch cyfyng		
Mannau aros dan do		
Cyfleusterau prynu tocynnau		
Toiledau		
Parcio ceir		
Safleoedd bysiau		
Mannau manwerthu, gan gynnwys bwyd		
Parcio i feiciau		
Cyfleuster cymunedol		
Mannau clicio a chasglu (i barseli a danfoniadau)		
Cysylltedd symudol		
Mannau gwybodaeth		
Pwyntiau gwefru dyfeisiau symudol		
Pwyntiau gwefru ceir trydanol		

Pa gyfleusterau eraill y byddech yn disgwyl eu gweld yn eich gorsaf?

Gwasanaethau gwell

Bydd y Metro wedi'i ddylunio i fod yn wasanaeth cyrraedd a mynd, yn arbennig yn ystod y diwrnod gwaith. Fodd bynnag, hoffem wybod rhagor am yr hyn a fyddai'n eich annog i ddefnyddio'r gwasanaeth yn aml mewn cyfnodau mwy tawel.

Nodwch sgôr o 1 i 6 ar gyfer pob eitem (defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig, hynny yw, rhowch sgôr o 1 i'r eitem fwyaf dymunol, a 6 i'r un leiaf dymunol, a rhowch sgôr rhwng y rhifau hynny i'r eitemau eraill)

Gwasanaethau amlach yn ystod oriau nad ydynt yn oriau brig	
Trên olaf hwyrach	
Trên cyntaf cynharach	
Mwy o wasanaethau ar ddydd Sul	
Gwasanaethau ar Ŵyl San Steffan (26 Rhagfyr)	
Gwasanaethau Dydd Calan	

Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o'r defnydd o Linellau Craidd y Cymoedd wedi'i neilltuo ar gyfer trenau nwyddau a rhagwelir y bydd y defnydd hwn yn lleihau. A ydych yn credu y dylai'r defnydd o'r rhwydwaith na fydd ei angen ar gyfer cludo nwyddau yn y dyfodol agos gael ei neilltuo i drenau cludo teithwyr yn lle hynny, gyda'r canlyniad na fyddai ar gael wedyn i'w ddefnyddio gan drenau cludo nwyddau os bydd galw am draffig cludo newyddau yn codi yn y dyfodol?

--

--

Trafnidiaeth gyhoeddus well i bawb

Mae Llywodraeth Cymru a Dinas-Ranbarth Caerdydd yn awyddus i annog mwy o bobl i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ledled y rhanbarth. Mae llawer o welliannau i wasanaethau wedi'u hystyried eisoes uchod drwy wella trenau, amserlenni a gorsafoedd, ond yn yr ymgynghoriad diwethaf cafwyd llawer o syniadau da ynglŷn â sut y gallem annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn fwy aml. Mae'r rhestr a ganlyn yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â mwy o welliannau. Hoffem wybod pa ddewisiadau a fyddai'n eich annog chi i ddefnyddio'r trên yn fwy aml.

Nodwch sgôr o 1 i 5 ar gyfer pob eitem. Defnyddiwch bob rhif unwaith yn unig, hynny yw, rhowch sgôr o 1 i'r dewis y credwch y byddai'n cael yr effaith fwyaf o ran eich annog i ddefnyddio'r trenau, a 5 i'r un a fyddai'n cael yr effaith leiaf, a rhowch sgôr rhwng y rhifau hynny i'r eitemau eraill). Os oes gennych unrhyw syniadau, nodwch y rhain yn y blwch 'Arall', isod.

Integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus o fathau eraill, e.e. bysiau	
Cyfleusterau parcio a theithio mewn gorsafoedd	
Prisiau tocynnau arbennig (e.e. brig, allfrig, teithwyr mynych, trefniadau ar gyfer gweithwyr rhan-amser a gweithwyr sifft)	
Tocynnau integredig i'w defnyddio ar fysiau a threnau	
Un pwynt cyswllt ar gyfer tocynnau, amserlenni, a gwybodaeth o ran pob math o drafnidiaeth gyhoeddus	
Arall (nodwch)	

--	--

Darparu gwybodaeth well

Yn yr ymgynghoriad blaenorol, dywedoch wrthym am bwysigrwydd gallu cael gafael ar wybodaeth glir, gywir a chyfoes.

Hoffem ddeall sut y byddai'n well gennych gael gwybodaeth i deithwyr. Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

	Gwybodaeth yn yr orsaf	Ap	E-bost a neges destun	Gwefan	Ar y trê	Cyfryngau cymdeithasol	Staff mewn gorsafod
Amhariadau sydd wedi'u cynllunio a newidiadau i wasanaethau							
Gwybodaeth deithio fyw gan gynnwys gwybodaeth am oedi							
Cynllunio teithiau gan gynnwys amseroedd y trenau							
Gwasanaethau newydd							
Newidiadau i docynnau							
Gwybodaeth deithio ar gyfer digwyddiadau mawr							
Gwybodaeth							

am berfformiad trenau a gwasanaethau							
--	--	--	--	--	--	--	--

Rheoli gwaith adeiladu

Mae'n anochel y bydd prosiectau seilwaith mawr fel y Metro yn amharu ar wasanaethau presennol i ryw raddau. Fodd bynnag, hoffem gael gwybod eich barn ynglŷn â sut y gellir cynnal y gwaith adeiladu yn y dull sy'n creu'r anghyfleustra lleiaf i deithwyr. Heb gau'r rhwydwaith dros do am gyfnod penodol, bydd y gwaith adeiladu, ac felly'r amhariadau, yn para'n hirach.

Ticiwch y datganiad yr ydych yn cytuno fwyaf ag ef.

Byddai'n well gennyf weld y rhwydwaith yn cau am gyfnod penodol, a fyddai'n para am fisoedd olynol (y cyfnod adeiladu byrraf)	
Byddai'n well gennyf weld nifer o gyfnodau o gau sy'n para wythnosau ar y tro, dros gyfnod y gwaith adeiladu (byddai'r cyfnod adeiladu'n hwy nag yn achos opsiwn 1)	
Byddai'n well gennyf gynnal gwasanaethau cymaint ag y bo modd ac i'r gwaith gael ei wneud dros nos ac ar benwythnosau yn unig, a all effeithio ar wasanaethau cynnar a hwyr. (Dyma'r cyfnod hiraf ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu).	

Ticiwch y ddau ddull cyfathrebu a fyddai'n well gennych er mwyn rhoi gwybod ichi am waith arfaethedig/parhaus, o ran y ddau fath o amhariad.

Dull	Amhariad sydd wedi'i	Gwaith brys
-------------	-----------------------------	--------------------

	gynllunio	
E-bost		
Twitter		
Neges destun		
Gwefan		
Poster a thafleuni mewn gorsafoedd		
Cyfryngau cymdeithasol		
Staff mewn gorsafoedd		

5. Amdanoch chi

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yr enw, pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, a sut y cafodd barn yr aelodau eu casglu (os yw'n berthnasol)

--

Os ydych yn ymateb fel unigolyn, darparwch y wybodaeth a ganlyn:

Hanner cyntaf eich cod post	
Eich gorsaf agosaf	
O ble y byddwch yn teithio ar y trê'n fel rheol, ac i ble	
Yr amseroedd pan fyddwch yn teithio amlaf	
Pa mor aml y byddwch yn defnyddio'r trê'n	Bob dydd / yn rheolaidd / yn achlysurol / yn anaml / byth
Diben eich taith	Cymudo / hamdden / busnes
A oes gennych unrhyw anghenion arbennig, a allai gynnwys y rhai a ganlyn, ond nad ydynt wedi'u cyfyngu	

iddynt: mynediad ar gyfer cadair olwyn, mynediad ar gyfer cadair wthio, nid Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, rydych yn ddall neu'n rhannol ddall, namau o ran gallu.	
---	--

Atodiad 1 Gwasanaethau dyddiol drwy orsafoedd yn Lloegr

Gorsaf	Gweithredwr/gweithredwyr	Gwasanaethau dyddiol (w)	Trenau Arriva Cymru %	Melyn = Mae Trenau Arriva Cymru yn gweithredu llai na 50% o'r gwasanaethau (ond y prif weithredwr yw, er hynny)
Broome	Trenau Arriva Cymru	9	100%	
Bucknell	Trenau Arriva Cymru	9	100%	
Caer	Trenau Arriva Cymru , Merseyrail, Northern, Virgin West Coast	206	49.0%	
Church Stretton	Trenau Arriva Cymru	48	100%	
Craven Arms	Trenau Arriva Cymru	47	100%	
Frodsham	Trenau Arriva Cymru , Northern	42	95.2%	
Gobowen	Trenau Arriva Cymru	38	100%	
Helsby	Trenau Arriva Cymru , Northern	47	85.1%	
Henffordd	Trenau Arriva Cymru , GWR, London Midland	79	70.9%	
Heswall	Trenau Arriva Cymru	28	100%	
Hopton Heath	Trenau Arriva Cymru	9	100%	
Trefyclo	Trenau Arriva Cymru	10	100%	
Llanllieni	Trenau Arriva Cymru	42	100%	
Llwydlo	Trenau Arriva Cymru	51	100%	
Lydney	Trenau Arriva Cymru, Cross Country	37	64.9%	
Nantwich	Trenau Arriva Cymru	39	100%	
Neston	Trenau Arriva Cymru	28	100%	
Prees	Trenau Arriva Cymru	22	100%	
Runcorn East	Trenau Arriva Cymru, Northern	42	95.2%	
Amwythig	Trenau Arriva Cymru, London Midland, Virgin West Coast	128	83.6%	
Upton	Trenau Arriva Cymru	28	100%	
Wem	Trenau Arriva Cymru	30	100%	
Whitchurch	Trenau Arriva Cymru	38	100%	
Wrenbury	Trenau Arriva Cymru	22	100%	
Yorton	Trenau Arriva Cymru	22	100%	